

Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Partneriaethau Dyddiad: 2 Chwefror 2023
Rhif Union: 01824 712554
ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 9 CHWEFROR 2023 am 10.00 am YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRwy GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYs FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022 (copi ynghlwm).

5 PROSIECT YSBYTY CYMUNEDOL GOGLEDD SIR DDINBYCH

Trafod gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â'u cynlluniau a therfynau amser disgwyliedig ar gyfer darparu'r prosiect ysbty a chyfleusterau cysylltiedig.

10.15 A.M- 11 A.M

~~~~~ EGWYL (11.00 A.M - 11.15 A.M) ~~~~

## **6 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH MEWN PERTHYNAS Â IECHYD MEDDWL**

Trafodaeth gyda chynrychiolwyr o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru ar eu trefniadau gweithio mewn partneriaeth mewn perthynas â materion Iechyd Meddwl.

11.15 A.M- 12.00 P.M

## **7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 17 - 42)**

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craftu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwylgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

12.00 P.M- 12.15 P.M

## **8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Joan Butterfield  
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Peter Scott (Is-Gadeirydd)

Jeanette Chamberlain-Jones  
Kelly Clewett  
Pauline Edwards  
Bobby Feeley  
Martyn Hogg

Terry Mendies  
Raj Metri  
David Williams  
Elfed Williams

## **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn by video conference, Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2022 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Pauline Edwards, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Peter Scott (Is-Gadeirydd), David Williams ac Elfed Williams.

Roedd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cyngropydd Rhys Thomas a'r Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, y Cyngropydd Julie Matthews hefyd yn bresennol ar gais y Pwyllgor ar gyflwyno eitemau o fewn eu portffolios.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Dros Dro (NK); Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ST); Prif Swyddog, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (TB); Cydlynydd Craffu (RhE)  
Gweinyddwr Pwyllgorau – Gwesteiwr (SW) a Swyddog Gwasanaethau Democratiaidd – cofnodion (KE)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cyngropydd Kelly Clewett.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022.

Materion yn codi:

Darpariaeth Contract Gwasanaethau Gorfodi Amgylcheddol (argymhelliaid ii tudalen 8) – Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr argymhelliaid wedi'i weithredu? Dywedodd y Cydlynydd Craffu fod y Gwasanaeth wedi cadarnhau eu bod wedi cysylltu â'r Tîm Cyfathrebu, gyda'r bwriad o lunio cynllun cyfathrebu i hysbysu preswylwyr, busnesau, cynhorau dinas, tref a chymuned am y newidiadau arfaethedig.

Penderfynodd y Pwyllgor:  
**y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022 fel cofnod cywir o'r trafodion.**

**Cyn dechrau trafod yr eitem fusnes ganlynol, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai'r Pwyllgor yn trafod eitem fusnes 5, yn ei swyddogaeth fel Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn dynodedig y Cyngor, yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyflawnder 2006, adrannau 19 a 20.**

## 5 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw). Atgoffodd y Pwyllgor mai dyma adroddiad blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol - mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022.

Eglurodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio bod Diogelwch Cymunedol yn cael ei reoli o fewn y gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio, ond eu bod yn gweithio'n agos â nifer o adrannau eraill, gan gynnwys Gwasanaethau Ieuenciad, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ac ati.

Roedd cynllun gweithredu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych yn rhan o gynllun rhanbarthol a ddatblygwyd ar draws Gogledd Cymru, dan arweiniad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Lluniwyd cynllun ar sail dadansoddiadau blynyddol. Yn lleol, roedd y cynllun yn cael ei reoli gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych.

Cyfeiriodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol at yr Adroddiad Cryno Perfformiad (atodiad 1), gan amlyu:

Blaenoriaeth 1: Lleihau Trosedd ac Anrhefn yn Sir Ddinbych trwy weithio mewn Partneriaeth - roedd y statws perfformiad ar ddiwedd 2021/22 yn dderbyniol;  
Blaenoriaeth 2: Lleihau aildroseddu - roedd y statws perfformiad ar ddiwedd 2021/22 yn dderbyniol; a  
Blaenoriaeth 3: Blaenoriaethau Lleol – roedd y statws perfformiad ar ddiwedd 2021/22 yn dda.

Gwelwyd newid ers y cyfnod adrodd blaenorol yn sgil y cynnydd mewn troseddu ieuenciad a cham-drin/stelcian domestig.

Roedd Blaenoriaeth 1 yn ymwneud â chydweithio â phartneriaid e.e. Awdurdod Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru, yr Heddlu, Gwasanaethau Prawf, Iechyd, gyda'r nod o:

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar y dioddefwr;
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol;
- Lleihau cam-drin domestig a thrais rhywiol a
- gweithio gyda chydweithwyr ar gynadleddau ac asesiadau risg aml asiantaeth i reoli troseddwyr ailadroddus.

Blaenoriaeth 2 – y nod oedd lleihau aildroseddu trwy weithio gyda'r:

- Gwasanaeth Prawf (oedolion yn aildroseddu);
- Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc / Gwasanaethau Ieuencid; a
- chydweithio i atal troseddau cyfundrefnol.

Blaenoriaeth 3 - Tynnwyd sylw at flaenoriaethau Lleol a Rhanbarthol yn aml gan aelodau etholedig neu Heddlu Gogledd Cymru, wrth iddynt dderbyn nifer o alwadau e.e. yn ymwneud ag eiddo trwyddedig, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ati.

### **Blaenoriaeth 1 – Lleihau Trosedd ac Anrhefn yn Sir Ddinbych trwy weithio mewn Partneriaeth.**

Yn gyffredinol, roedd perfformiad y Bartneriaeth yn dderbyniol oherwydd y cynnydd parhaus yn y nifer o ddioddefwyr cam-drin, stelcian ac aflonyddu domestig a adroddodd am ddigwyddiadau o'r fath. Er bod y cynnydd canrannol yn ymddangos yn uchel, roedd yr union niferoedd yn isel. Roedd enghrefftiau o weithio mewn partneriaeth ar gyfer ymdrin â'r flaenoriaeth hon yn cynnwys ymgymryd â'r mesurau canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth am droseddu sy'n seiliedig ar y dioddefwr trwy'r cyfryngau cymdeithasol, mynchu digwyddiadau a sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar wefannau partner.
- Arolygon cartref a busnes a gynhelir gan gynghorwyr lleihau trosedd a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu er mwyn helpu atal lladradau.
- Darparu offer gwella diogelwch a chyngor atal trosedd (Cloeon/barrau drysau ac ati).
- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd Cynhadledd misol Asesiad Risg Amlasiantaeth, gan adolygu achosion dioddefwyr cam-drin domestig a gweithredu cynlluniau gweithredu.
- Anfonodd Sir Ddinbych nifer o ddatganiadau i'r wasg ynghylch cam-drin domestig trwy gydol y flwyddyn a newidiwyd lliw Pont y Ddraig i ddynodi cefnogaeth yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diwrnod y Rhuban Gwyn ar 25 Tachwedd 2021. Cynhalwyd gwylnos gyda phartneriaid yn yr arena ddigwyddiadau yn y Rhyl i ddangos cefnogaeth o ran atal traïs.
- Hyrwyddwyd llinell gymorth Byw Heb Ofn Cymru Gyfan, a dderbyniodd 192 galwad gan breswylwyr Sir Ddinbych.

Roedd cyfarfodydd gweithgarwch prosiect gydag asiantaethau partner yn trafod:

- Caethwasiaeth Fodern;
- Llinellau Sirol;
- Rheoli Troseddwyr Integredig;
- Cam-Drin Domestig; ac
- Ymgyrchoedd Drinkaware.

### **Blaenoriaeth 2 – Lleihau achosion o aildroseddu.**

Gwelwyd gostyngiad mewn pobl dros 18 oed yn troseddu, ond cynnydd o ran pobl ifanc. Bu i'r bartneriaeth ganolbwytio ar:

- Gymryd rhan mewn rhagleni rheoli troseddwyr lleol;
- Hyrwyddo datrysiau cymunedol a chyflawnder adferol wrth ddatrys mân broblemau;
- Mynychu cynadleddau cyflawnder adferol fel cyfaill beirniadol;
- Nodi ymddygiad gwrthgymdeithasol ailadroddus; a
- Sefydlu fforwm pwrpasol yn y Rhyl i ganolbwytio'n benodol ar drosedd ac anrhefn.

### **Blaenoriaeth 3 – Blaenoriaethau Lleol**

Roedd statws perfformiad cyffredinol y flauenoriaeth yn dda. Roedd y bartneriaeth wedi:

- Sefydlu grwpiau amlasantiaeth lleol yn Sir Ddinbych i reoli digwyddiadau ailadroddus o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol;
- Hyrwyddo'r defnydd o ddatrysiau cymunedol i ddatrys digwyddiadau ailadroddus o ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Gweithredu hysbysiadau amddiffyn cymunedol / Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus;
- Eiddo trwyddedig a reolir a thrwyddedau tacsi a gaiff eu gorfodi / monitro;
- Parhau â gweithrediadau (Mawrth 2022) o dargedu golchi ceir o dan gynlluniau gweithredu caethwasiaeth fodern;
- Monitro tensiwn cymunedol, protestiadau/gwylnosau - gan gynnwys trosedd casineb gyda chymorth y tîm Cydlyniant rhanbarthol.
- Gwneud cais am ragor o gyllid trydydd sector ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig ychwanegol yn lleol.

Yn gorfforaethol, cyhoeddodd Sir Ddinbych gyfathrebiadau mewnol ac allanol yn ymwneud â hyfforddiant ac ymyraeth gynnar, gan gamol gwaith y Bwrdd Diamddiffynedd Rhanbarthol a'r tîm cam-drin domestig rhanbarthol.

Gweithredwyd mwy o weithgarwch heddlu o ran economi'r nos -- gan edrych yn benodol ar drais yn erbyn merched a genethod. Roedd y cynllun 'Gofynnwch am Angela' ar waith mewn tafarndai yn Sir Ddinbych.

Derbyniwyd grant o £5000 grant ar gyfer cyhoeddi nwyddau'r ymgyrch Byw Heb Ofn – balm gwefus, hylif diheintio dwylo a beiros gyda rhif ffôn y llinell gymorth arnynt - wedi'u lleoli'n strategol – ar gyfer y rhai sydd angen cymorth i gael mynediad ato.

### **Dadansoddi Ystadegau Troseddu**

O'r 13 categori adrodd Trosedd a digwyddiad sy'n ymwneud â Sir Ddinbych, cofnodwyd 7 fel yr uchaf ar gyfer y Flwyddyn hyd Yma, o'u cymharu â'r ffigyrâu cyn Covid. Roedd y ffigyrâu'n cyd-fynd â'r rhai disgwyliedig ac ni nodwyd unrhyw anghysondebau.

Aeth y Rheolwr Diogelwch Cymunedol ymlaen i egluro'r gwahanol gategorïau troedd a oedd yn cael eu monitro. Fe'u cymharwyd â ffigyrâu a gofnodwyd cyn Covid, gan fod y cyfnodau clo wedi effeithio ar y math o droseddau a gyflawnir. O'r herwydd, cafodd tueddiadau eu monitro yn hytrach na ffigyrâu.

Yn arwyddocaol, gwelwyd cynnydd o flwyddyn mewn Stelcian ac Aflonyddu. Fe ychwanegwyd Ymddygiad Cymhellol a Rheolaethol at y categori hwnnw, a arweiniodd at gynnydd yn y niferoedd a gofnodwyd.

Gwelwyd cynnydd cenedlaethol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â phobl ifanc. Roedd y partneriaethau'n gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Ieuencid i ganfod yr achos craidd mewn cymunedau lle'r oedd problemau. Roedd cyfarfodydd amlasant aeth – yn cynnwys aelodau lleol – yn cael eu cynnal er mwyn nodi a datrys problemau.

Gan ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol bod:

- Y manteision o weithio mewn partneriaeth yn cynnwys rhannu adnoddau, cydgyfrifoldebau, cymhwysedd ar gyfer arian grant ac osgoi dyblygu gwaith.
- Cafwyd ymateb cadarnhaol mewn perthynas ag ymgyrch 'Gofynnwch i Angela'. Gofynnir i'r Tîm Trwyddedu a oes unrhyw ystadegau ar gael.
- Cymharwyd ystadegau â ffigyrâu rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn nodi tueddiadau.
- Nid oedd sgamiau / twyll ar-lein yn rhan o gategori ystadegau troedd yr adroddiad – er eu bod nhw'n flaenorïaethau rhanbarthol i'w hystyried gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throedd – byddai ffigyrâu ar gael gan fod y Gwasanaeth Safonau Masnach yn gyfrifol am gofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau honedig o sgamiau a thwyll ar-lein.
- Yn ogystal â'r adroddiad blynnyddol, darparwyd diweddariadau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Aelod Arweiniol ar sail chwarterol.
- Cyflwynwyd y broses o Fonitro Protestiadau/Gwylnosau yn ystod Covid, ond fe'u defnyddir eto ar gyfer monitro unrhyw densiynau cymunedol.
- Roedd gwasanaethau'r 3ydd Sector yn rhan hanfodol o'r bartneriaeth wrth weithio gyda phobl ifanc. Darparodd yr Hwb yn Sir Ddinbych a Phrosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl gymorth ac ymgysylltiad gwerthfawr yn sgil digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol diweddar gyda'r Prosiect Strydoedd Mwy Diogel a
- Gellid gwahodd Prif Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru Sir Ddinbych i gyfarfod y Pwyllgor, y tro nesaf y cyflwynir adroddiad blynnyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Dyweddodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Dros Dro bod fforwm Grŵp Diogelwch Cymunedol y Rhyl (a oedd yn cynnwys aelodau lleol) wedi'i sefydlu er mwyn mynd i'r afael â'r nifer o broblemau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2023.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau i'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol am ei brwdfrydedd a'i hymrwymiad yn y swydd,adleisiwyd hyn gan y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl:

**Penderfynodd y Pwyllgor: yn amodol ar y sylwadau uchod –**

- (i) *dderbyn diweddariad perfformiad ac ystadegol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2021/22;*
- (ii) *cefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i'w cyflawni yn ystod 2022/23; ac*
- (iii) *â'r bwriad o hwyluso craffu darpariaeth gweithgarwch diogelwch cymunedol yn yr ardal yn effeithiol, a gwahodd Prif Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru Sir Ddinbych i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2023, i gyflwyno Adroddiad Blynnyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2022/23.*

## 6 CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH (CGGSDD)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, Tom Barham, Prif Swyddog Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd), gan wneud sylwadau ar bwysigrwydd y gefnogaeth a'r berthynas waith gyda phartneriaid Trydydd Sector er mwyn cyflawni amcanion ar y cyd.

Cyflwynodd y Prif Swyddogion adroddiad diweddaru ar waith CGGSDd dros y 12 mis diwethaf, wrth iddo symud ymlaen yn dilyn heriau Pandemig y Covid a'r Argyfwng Costau Byw.

Yn ddiweddar, lluniodd CGGSDd ddatganiad i egluro pwrrpas cynghorau gwirfoddol:

'Mae CGGSDd yn galluogi elusennau a grwpiau cymunedol (Trydydd Sector) i fod yn fwy effeithiol a chysylltu'n well, gan gydweithio i ddatblygu Sir Ddinbych sy'n gryf a bywiog'.

Dyweddodd bod CGGSDd yn elusen annibynnol sy'n gweithio orau mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd), i wella cymunedau Sir Ddinbych fel galluogwyr sy'n cynghori, hwyluso, ariannu a hyrwyddo'r sector gwirfoddol.

Roedd gan breswylwyr Sir Ddinbych ystod o anghenion a gafodd eu diwallu yn rhannol gan weithgareddau'r Trydydd Sector. Cefnogodd CGGSDd grwpiau cymunedol ag anghenion o ran:

- sefydlu,
- twf,
- llywodraethu da,
- partneriaeth,
- rhwydweithio a dylanwadu,
- reciwtio staff a gwirfoddolwyr,
- cael gafael ar gyllid,

- sgiliau a
- gallu ymateb yn effeithiol i newid.

Roedd y CGGSDd yn rhan o rwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gydag ystod o adnoddau ar-lein sy'n annog gwaith ar draws y 4 piler: gwirfoddoli, llywodraethu da, cyllid cynaliadwy ac ymgysylltu a dylanwadu. Canolbwytir o'r newydd ar wirfoddoli dros y misoedd nesaf.

Caiff y gwaith o asesu a dyrannu rhaglenni grant gyda CSDd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd lechyd hefyd ei reoli gan CGGSDd. Cafodd bron i 0.25 miliwn o bunnoedd o gyllid, 87 grant eu dyrannu yn Sir Ddinbych y llynedd.

Roedd Llywodraethu yn elfen bwysig o'r ôl CGGSDd, wrth iddo ddarparu hyfforddiant, ymgynghoriaeth a chyngor uniongyrchol i grwpiau Trydydd Sector, gan helpu ffurfio 18 menter gymdeithasol newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gyda chymorth cyllid gan CSDd, cyflawnwyd prosiect gan CGGSDd yn 2022 i ganfod gwytnwch sefydliadau Trydydd Sector ar ôl y Covid.

Roedd Adroddiad Ymchwil y Trydydd Sector, Ebrill 2022 yn amlygu:

- bod 2450 sefydliad Trydydd Sector yn Sir Ddinbych
- bod 10% o'r holl swyddi yn Sir Ddinbych yn y Trydydd Sector
- mai Sir Ddinbych oedd â'r drydedd lefel gwirfoddoli uchaf yng Nghymru, sy'n cynrychioli 4,700,000 o oriau gwirfoddol
- bod y sefydliadau hyn wedi dangos gwytnwch yn ystod Covid, ond eu bod bellach o dan fygythiad oherwydd cynnydd yn y galw, cyllid tymor byr a chostau gweithredu uwch
- bod problemau o ran reciwtio, bylchau mewn sgiliau, technoleg a data. Roedd 52% yn credu y byddai eu sefydliad yn ehangu, ond dim ond 54% oedd o'r farn eu bod nhw'n gynaliadwy.

Gweithiodd CGGSDd gydag ystod o sefydliadau (tua 250), yn bennaf sefydliadau bach, newydd a rhai sy'n ehangu. Gellid darparu cefnogaeth wyneb yn wyneb neu trwy eu cyfeirio at adnoddau cenedlaethol ynghylch ariannu ac ati.

Roedd CGGSDd yn gweithio gyda CSDd yn ôl y Gronfa Ffyniant Gyffredin i wella sut mae awdurdodau lleol yn comisiynu a chaffael gwasanaethau o'r Trydydd Sector, a cheisio lleihau rhwystrau caffael sy'n pryderu sefydliadau llai, gan ganolbwytio ar yr elfen gwerth cymdeithasol.

Roedd ymchwil CGGSDd yn dangos:

- posiblwydd o ran gwella perthynas waith â Chyngor Sir Ddinbych ac
- awydd ar bob ochr am bartneriaeth, rhwydweithio a phontio'r bwlc, yn enwedig o ran yr argyfwng costau byw.

Dyma enghreifftiau ymarferol o CGGSDd yn gweithio gyda CSDd:

- Sefydlu Grŵp Cyswllt Trydydd Sector newydd.
- Menter Croeso Cynnes / Warm Welcome a

- Cydweithio ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin / Cyfleoedd Trydydd Sector, gan greu rhwydweithiau cymorth cymheiriad.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, roedd Prif Swyddog CGGSDd yn annog aelodau i rannu eu gwylbodaeth leol ynghylch sefydliadau a oedd angen cymorth neu gefnogaeth, yn enwedig o ran cyllid neu grantiau. Dywedodd ei bod hi'n bwysig i CGGSDd fod â phresenoldeb ac yn weladwy ar draws y sir. Nid oedd y sefydliad yn cyflogi nifer fawr o bobl, ei rôl oedd cefnogi a hwyluso grwpiau cymunedol i fod yn wydn. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ffair gwirfoddolwyr yn Llangollen, a chynhelir y nesaf yn y Rhyl/Prestatyn.

Diolchodd y Prif Swyddog i swyddogion a chynghorwyr CSDd am y croeso a gafodd yn y swydd a'u parodrwydd i gydweithio. Anogodd aelodau etholedig i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau CGGSDd o fewn eu cymunedau.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Prif Swyddog am fynychu'r cyfarfod, am ei gyflwyniad llawn gwylbodaeth ac am ei atebion cynhwysfawr i gwestiynau'r aelodau. Felly:

**Penderfynwyd:** –

- (i) *cydnabod y cynnydd a wnaed gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd) hyd yma o ran gwireddu ei weledigaeth a gwelli ei berthynas waith â'r Cyngor a chyda sefydliadau gwirfoddol yn Sir Ddinbych; a*
- (ii) *chefnogi nodau CGGSDd a'r Cyngor i ddatblygu partneriaeth agos ac effeithiol rhwng budd-ddeiliaid y sector gwirfoddol a'r cyhoedd, gyda'r nod o sicrhau y bydd cymunedau'r Sir yn fywiog, wedi'u cysylltu ac yn wydn ar gyfer y dyfodol.*

## 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai pwrrpas yr adroddiad oedd adolygu gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl eitemau a ofynnwyd amdanyst gan yr Aelodau.

Atgoffwyd y Pwyllgor bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Partneriaethau wedi'i drefnu ar gyfer 9 Chwefror 2023. Cyflwynwyd dwy eitem allweddol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

- I. Gweithio mewn Partneriaeth mewn perthynas ag Iechyd Meddwl
- II. Prosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych.

Roedd cyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu wedi'i drefnu ar gyfer 19 Ionawr 2023. Atgoffwyd Aelodau i lenwi'r Ffurflen Cynnig Testun Craffu (atodiad 2), os oedd ganddynt unrhyw eitemau i'w cyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu i'w hadolygu ac/neu eu dyrannu ar gyfer rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor craffu.

Gofynnodd y Pwyllgor i nodyn atgoffa gael ei ddosbarthu i aelodau ynghylch sut i gynnig eitemau craffu.

**Penderfynodd y Pwyllgor: yn amodol ar y sylwadau uchod**

- (i) *gadarnhau ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 yn yr adroddiad; a*
- (ii) *gofynnodd bod yr holl gynghorwyr yn cael eu hatgoffa o'r broses i'w dilyn ar gyfer cynnig eitem ar gyfer craffu yn y dyfodol.*

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Mynychodd y Cyngorydd Bobby Feeley gyfarfod cyntaf Bwrdd Prosiect Bwthyn y Ddôl, prif fenter canolfan asesu plant mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn anffodus, roedd y prosiect yn cael ei gynnal o lety dros dro ym Mae Colwyn oherwydd bod y contractwr a benodwyd yn wreiddiol wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Yn dilyn trafodaeth faith, cafodd contractwr dibynadwy ei nodi, rhagwelwyd y byddent yn cael eu penodi, wrth aros am gasgliad gwerthusiad llwyddiannus, ddiweddu'r wythnos ac y byddai'r gwaith adeiladu'n cychwyn yn y flwyddyn newydd.

Penderfynodd y Pwyllgor:

***dderbyn yr adroddiad ar lafar a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Bobby Feeley ynghylch y trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod diweddar Bwrdd Prosiect Bwthyn y Ddôl.***

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



|                            |                                                                                |
|----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r</b>       | <b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>                                          |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod</b>  | <b>9 Chwefror 2023</b>                                                         |
| <b>Pennaeth Gwasanaeth</b> | <b>Lisa Jones. Pennaeth dros dro y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad</b>  | <b>Rhian Evans, Cyd-lynnydd Craffu</b>                                         |
| <b>Teitl</b>               | <b>Rhaglen Waith Craffu</b>                                                    |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol drafft (gweler Atodiad 1). Wrth ei hadolygu gofynnir i'r Pwyllgor adlewyrchu ar oblygiadau'r ffocws ar weithrediadau critigol i fusnes yn ystod cyfnod argyfwng y pandemig COVID -19 a'r gwaith sy'n digwydd dan y trefniadau adfer, tra ar yr un pryd flaenoriaethu materion sydd yn nhŷb y Pwyllgor yn bwysig craffu arnynt.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, diwygio neu'n newid ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y gwêl yn briodol;
- 3.2 penodi cynrychiolydd i wasanaethu ar y Grŵp Craffu Cyfalaf; ac
- 3.3 yn penderfynu os oes unrhyw prif bwyntiau neu themau o'r cyfarfod hwn y dymuna dynnu sylw atynt trwy'r wasg a/neu'r cyfryngau cymdeithasol.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Mae Adran 7 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Craffu, yn ogystal â rheolau gweithdrefnau a trafodaethau.
- 4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwylgorau craffu'r Cyngor osod, ac adolygu'n rheolaidd, rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Trwy adolygu a blaenoriaethu materion, gall aelodau sicrhau bod y rhaglen waith yn cyflwyno agenda a arweinir gan yr aelodau.
- 4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwylgorau craffu'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyri mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.
- 4.4 Yn y blynnyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru (LIC) ac Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl craffu ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio craffu fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. O hyn allan, disgwylir i graffu ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda bwriad i sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyyddion. Bydd Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd craffu wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.
- 4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer craffu a chanolbwytio ar yr un pryd ar flaenoriaethau lleol, gwnaeth y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC) argymhell y dylai pwylgorau craffu'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhagleni gwaith, ganolbwytio ar y meysydd allweddol canlynol:
  - arbedion ar y gyllideb;
  - cyflawni Themau y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);

- unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Craffu (neu'r GCIGC) fel blaenoriaeth uchel (yn seiliedig ar y mein prawf profion PAPER - gweler ochr gefn y 'Ffurflen Cynnig gan Aelodau' yn Atodiad 2);
- Materion brys, na ragwelwyd neu flaenoriaeth uchel; a
- Cefnogi gwaith adfer y Cyngor mewn perthynas ag effeithiau'r argyfwng COVID-19 ar wasanaethau'r Cyngor, yr economi leol a chymunedau'r sir

#### 4.6 Ffurflenni Cynnig ar gyfer Craffu

Fel y crybwyllywd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwylgorau craffu baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu amser i gael ei drafod ar raglen fusnes Craffu, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r GCIGC i Graffu ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir.

#### 4.7 Er mwyn gwneud gwell defnydd o amser craffu drwy ganolbwyntio adnoddau pwylgorau i archwilio testunau'n fanwl, gan ychwanegu gwerth drwy'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer preswylwyr, penderfynodd y GCIGC y dylai'r aelodau, yn ogystal â swyddogion, lenwi 'ffurflenni cynnig ar gyfer craffu' yn amlinellu pam eu bod yn credu y byddai'r testun yn elwa o fewnbwn craffu. Mae copi o'r 'ffurflen gynnig gan aelod' i'w gweld yn Atodiad 2. Mae ochr gefn y ffurflen hon yn cynnwys siart lif sy'n rhestru'r cwestiynau y dylai aelodau eu hystyried wrth baratoi i gynnig eitem ar gyfer craffu, ac y dylai pwylgorau eu gofyn wrth benderfynu ar addasrwydd testun i'w gynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol craffu. Os, ar ôl cwblhau'r broses hon, y penderfynir nad yw'r testun yn addas i'w archwilio'n ffurfiol gan bwylgor craffu, yna gellir ystyried dulliau eraill o rannu'r wybodaeth neu archwilio'r mater e.e. darparu 'adroddiad gwybodaeth', neu os yw'r mater yn un o natur leol gellir ei archwilio gan y Grŵp Ardal Aelodau (GAA) perthnasol. Ni fydd unrhyw eitemau'n cael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb lenwi 'ffurflen gynnig ar gyfer craffu' a derbyn cymeradwyaeth i'w gynnwys ar y rhaglen gan y GCIGC. Mae cymorth ar gael i lenwi'r ffurflenni gan y Cydlynnydd Craffu.

## Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet

- 4.8 Wrth benderfynu ar eu rhaglen gwaith i'r dyfodol mae'n ddefnyddiol i'r pwyllgorau craffu ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. At y diben hwn, mae copi o rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet ynghlwm yn Atodiad 3.

## Datblygiad Penderfyniadau'r Pwyllgor

- 4.9 Yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori'r aelodau ar ddatblygiadau yn sgil y penderfyniadau.

## **5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu**

- 5.1 Dan drefniadau craffu'r Cyngor mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynus. Yng nghyfarfod y Grŵp ar 19 Ionawr 2023 ystyriwyd nifer o geisiadau am bynciau i graffu arnynt. Ar ddiwedd y trafodaethau cyfeiriwyd y pynciau canlynol at y Pwyllgor hwn ar gyfer craffu arnynt mewn manylder:
- Pleidlais ar gyfer Ail dymor posib Ardal Gwella Busnes yn y Rhyl
  - Ansawdd a Chyflwr Stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Sir Ddinbych

Rhestrwyd y ddwy eitem ar flaenraglen waith y Pwyllgor yn Atodiad 1 ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2023

- 5.2 Mae cyfarfod nesaf y Grŵp wedi'i drefnu ar gyfer 9 Mawrth 2023.

## **6. Cynrychioliaeth y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor**

- 6.1 O bryd i'w gilydd gofynnir i'r Pwyllgor benodi cynrychiolydd i wasanaethu ar amrywiol Fyrddau neu Grwpiau yn y Cyngor.
- 6.2 Yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2022 cymeradwyodd y Cabinet broses gyfalaf newydd a chefnogodd Gylch Gwaith drafft ar gyfer y Grŵp Craffu Cyfalaf newydd – copi ynghlwm yn Atodiad 5. Bydd y Grŵp hwn yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn, ym misoedd Mai, Gorffennaf, Medi, Tachwedd, Ionawr a Mawrth, gyda'r holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol.

- 6.3 Gofynnir i bob Pwyllgor Craffu benodi cynrychiolydd i wasanaethu ar y Grŵp hwn. Bydd disgwyl i'r cynrychiolydd penodedig adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar waith y Grŵp Craffu Cyfalaf o dan yr eitem fusnes reolaidd ar agenda'r Pwyllgor, 'Adborth gan Gynrychiolwyr y Pwyllgor'.
- 6.4 Disgwylir i gyfarfod arbennig o'r Grŵp Craffu Cyfalaf gael ei gynnal ym mis Ebrill 2023 pan fydd y Grŵp yn cymeradwyo ei Gylch Gwaith. Gofynnir felly i'r Pwyllgor benodi ei gynrychiolydd i wasanaethu ar y Grŵp.

## **7. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?**

- 6.1 Bydd craffu effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gynnal y themau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu ei themau corfforaethol, i wella canlyniadau i breswylwyr tra hefyd yn dygymod â phwysau ar adnoddau ac ar y gyllideb.

## **8. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 8.1. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gamau gweithredu yn dilyn ystyried yr eitemau hynny.

## **9. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

- 9.1. Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi ei wneud mewn perthynas â phwrpas neu gynnwys yr adroddiad hwn. Ond bydd y Pwyllgor Craffu, drwy ei waith yn archwilio darpariaeth gwasanaethau, polisiau, gweithdrefnau ac argymhellion, yn ystyried eu heffaith neu eu heffaith posib ar yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a'r amcanion o ran lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## **10. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

10.1. Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i'w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen waith.

## **11. Pa risgau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

11.1. Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith. Fodd bynnag, drwy adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol yn rheolaidd, gall y Pwyllgor sicrhau y rhoddir ystyriaeth ac yr archwili meysydd risg pan eu bod yn cael eu nodi, a gwneir argymhellion gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r risgau hynny.

## **12. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

12.1. Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

12.2. Mae Adran 7.11 Cyfansoddiad y Cyngor yn datgan y bydd pwylgorau craffu ac/neu'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn gyfrifol am osod eu rhagleni gwaith eu hunain, gan ystyried dymuniadau Aelodau o'r Pwyllgor nad ydynt yn aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.

**Note:** Items entered in italics have not been approved for submission by the Committee. Such reports are listed here for information, pending formal approval.

| Meeting                                                         | Lead Member(s)           | Item (description / title)                                                               | Purpose of report                                                                           | Expected Outcomes                                                                                                                                                                                                                                                                               | Author                      | Date Entered                 |
|-----------------------------------------------------------------|--------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|------------------------------|
| 30 March                                                        |                          |                                                                                          |                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                             |                              |
| 18 May                                                          | <b>Leader</b>            | 1. RE-ballot for potential Rhyl Business Improvement District (BID) 2 <sup>nd</sup> Term | To examine proposals for a potential 2 <sup>nd</sup> 5-year term for the Rhyl Bid           | Pre-decision scrutiny to determine whether:<br>(i) The BID arrangements are likely to conflict to a significant extent with existing policy<br>(ii) The burden on ratepayers from the levy is unjust; and<br>(iii) DCC should use its votes as a levy payer to vote 'Yes' or 'No' in any ballot | Tony Ward                   | By SCVCG January 2023        |
| All main RSLs operating in Denbighshire to be invited to attend | <b>Cllr. Rhys Thomas</b> | 2. <i>Quality &amp; Condition of Registered Social Landlords (RSL)</i>                   | To discuss with local RSLs the condition of their housing stock in the county, whether they | Ensure that all necessary measures are taken to make sure                                                                                                                                                                                                                                       | <i>Emlyn Jones and RSLs</i> | <i>By SCVCG January 2023</i> |

| Meeting | Lead Member(s)                                                | Item (description / title)                                   | Purpose of report                                                                                                                                               | Expected Outcomes                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Author            | Date Entered |
|---------|---------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|--------------|
|         |                                                               | <i>Housing Stock in Denbighshire</i>                         | comply with health & Safety requirements (including damp, mould and condensation measures) and do not pose any health & safety or well-being hazards to tenants | that all RSL units in Denbighshire are fit for human occupation or if they are not fit for habitation recommend that the Council does not refer potential tenants to those RSL. This will support the delivery of the Corporate Plan's theme of a 'Denbighshire of Quality Housing that meets people's needs' |                   |              |
| 6 July  | <b>Leader</b><br>(NWEAB Programme Office reps also to attend) | 1. North Wales Economic Ambition Board Annual Report 2022/23 | To consider the Board's Quarter4/Annual Report on its work and progress during 2022/23                                                                          | To ensure that the Board delivers its priorities and projects in line with the stipulations and conditions laid out between the Board and the UK & Welsh Governments                                                                                                                                          | NWEAB/Emlyn Jones | July 2022    |

| Meeting                                                                                           | Lead Member(s)    | Item (description / title) |                                                                      | Purpose of report                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Expected Outcomes                                                                                                                                                                                                                       | Author                                 | Date Entered   |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|----------------------------|----------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------|----------------|
|                                                                                                   | Cllr. Elen Heaton | 2.                         | Annual Report on Adult Safeguarding 2022/23                          | To consider the annual report on adult safeguarding, and information in place to meet the statutory requirements of the Social Services and Well-being Act 2014 and an evaluation of the financial and resource impact of the Supreme Court's 2014 Judgement on deprivation of liberty on the Service and its work<br><br>(data to include actual numbers in each category as well as % figures and the actual number of allegations proven) | An evaluation of whether the Authority is meeting its statutory duty with respect to adult safeguarding and has sufficient resources to undertake this work along with the additional work in the wake of the Supreme Court's judgement | David Soley/Alaw Pierce/Nerys Tompsett | June 2022      |
| 14 September<br><b>NWP Chief Inspector for Denbighshire to be invited to attend for this item</b> | Cllr. Rhys Thomas | 1.                         | Community Safety Partnership [Crime and Disorder Scrutiny Committee] | To detail the Partnership's achievement in delivering its 2022/23 action plan and its progress to date in delivering its action plan for 2023/24. The report to include financial                                                                                                                                                                                                                                                            | Effective monitoring of the CSP's delivery of its action plan for 2022/23 and its progress to date in delivering its plan for 2023/24 will                                                                                              | Nicola Kneale/Sian Taylor              | September 2022 |

| Meeting     | Lead Member(s)           | Item (description / title) |                                                              | Purpose of report                                                                                                                                                                                                     | Expected Outcomes                                                                                                                                                                     | Author                         | Date Entered |
|-------------|--------------------------|----------------------------|--------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------|--------------|
